# Rhaglen Gyflawn

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

Cyfarfod

**CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL**
**BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**

Dyddiad ac Amser

**1.00 y.h., DYDD GWENER, 18FED MEHEFIN, 2021**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol - Zoom**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 11/6/21)

# BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

## Aelodau a phleidlais

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Hugh Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| Llinos Medi Huws | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Mark Pritchard | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Ian B. Roberts | Cyngor Sir y Fflint |
| Dyfrig L. Siencyn | Cyngor Gwynedd |
| Charlie McCoubrey | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

## Ymgynghorwyr - Heb Bleidlais

| | |
|---|---|
| Dafydd Evans | Grwp Llandrillo Menai |
| Maria Hinfelaar | Prifysgol Glyndwr |
| Yana Williams | Coleg Cambria |
| Askar Sheibani | Bwrdd Cyflenwi Busnes |
| Yr Athro Iwan Davies | Prifysgol Bangor |

## Prif Swyddogion - Heb Bleidlais

| | |
|---|---|
| Annwen Morgan | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Iwan Davies | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Colin Everett | Cyngor Sir y Fflint |
| Dafydd Gibbard | Cyngor Gwynedd |
| Ian Bancroft | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| [sedd wag] | Cyngor Sir Ddinbych |

## Swyddogion yn bresennol

| | |
|---|---|
| Dafydd L. Edwards | Swyddog Adran 151 |
| Iwan G. Evans | Swyddog Monitro |
| Alwen Williams | Cyfarwyddwr Portffolio |
| Hedd Vaughan Evans | Rheolwr Gweithrediadau |
| Nia Medi Williams | Uwch Swyddog Gweithredol |

# R H A G L E N

## 1. ETHOL CADEIRYDD

Ethol Cadeirydd ar gyfer 2021/22.

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

Ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2021/22.

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 5. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 6. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL 4 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mai, 2021 fel rhai cywir.

## 7. BLAEN RAGLEN WAITH Y BWRDD UCHELGAIS - GORFFENNAF 2021 - GORFFENNAF 2022 9

Cyflwyno Blaen Raglen Waith y Bwrdd Uchelgais.

**BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**
**14 MAI 2021**

Yn bresennol:

Aelodau â Phleidlais – Y Cynghorwyr:- Hugh Evans (Cyngor Sir Ddinbych), Llinos Medi Huws (Cyngor Sir Ynys Môn), Charlie McCoubrey (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) a Dyfrig Siencyn (Cyngor Gwynedd) (Cadeirydd).

Ymgynghorwyr – Dafydd Evans (Grŵp Llandrillo Menai), Maria Hinfelaar (Prifysgol Glyndŵr), Askar Sheibani (Bwrdd Cyflawni Busnes), George Fisher (Coleg Cambria) a'r Athro Paul Spencer (Prifysgol Bangor).

Prif Swyddogion – Annwen Morgan (Cyngor Sir Ynys Môn), Iwan Davies (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Colin Everett (Cyngor Sir y Fflint), Graham Boase (Cyngor Sir Ddinbych) ac Ian Bancroft (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

Swyddogion yn bresennol – Dafydd L. Edwards (Swyddog Cyllid Statudol – Awdurdod Lletya), Iwan Evans (Swyddog Monitro – Awdurdod Lletya), Alwen Williams (Cyfarwyddwr Portffolio), Hedd Vaughan-Evans (Rheolwr Gweithrediadau), Nia Medi Williams (Uwch Swyddog Gweithredol), Jane Richardson (Cadeirydd Grŵp Swyddogion Gweithredol), Sian Pugh (Cyfrifydd Grŵp – Corfforaethol a Phrosiectau), Robyn Lovelock (Rheolwr Rhaglen Cynllun Twf), Henry Aron (Rheolwr Rhaglen Ynni), David Mathews (Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo), Elgan Roberts (Rheolwr Prosiect Ynni), Kirrie Moore (Rheolwr Prosiect Cysylltedd Digidol), Sara Jones (Rheolwr Caffael a Gwerth Cymdeithasol), Catherine Evans (Swyddog Prosiect Digidol), Cath Morris-Roberts (Rheolwr Prosiect Sgiliau a Chyflogaeth), Elin Angharad Evans (Rheolwr Prosiect Graddedig Sgiliau Cyflogaeth), Geralt Llewelyn Jones (Menter Môn), John Jenkins (Menter Môn), Annes Sion (Arweinydd Tim Democratiaeth – Awdurdod Lletya) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth – Awdurdod Lletya).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Cyng. Ian Roberts (Cyngor Sir y Fflint), Cyng. Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Yr Athro Iwan Davies (Prifysgol Bangor) a Dafydd Gibbard (Cyngor Gwynedd)

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyniwyd datganiad o Fuddiant Personol gan y Cyng. Llinos Medi Huws (Cyngor Sîr Ynys Môn) ar gyfer eitem 8 gan ei bod fel Arweinydd yn mynychu Bwrdd Menter Môn, ond nid oedd yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu ac felly roedd modd iddi gymryd rhan yn y drafodaeth.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Bwrdd Uchelgais a gynhaliwyd ar 26 Mawrth, 2021 fel rhai cywir.

## 5. ADRODDIAD ALLDRO A FFURFLEN FLYNYDDOL 2020-21

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Dafydd L Edwards (Swyddog Statudol Statudol – Awdurdod Lletya) a Sian Pugh (Cyfrifydd Grŵp – Corfforaethol a Phrosiectau).

**PENDERFYNWYD**

**Nodwyd a derbyniwyd Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw'r Cydbwyllgor ar gyfer 2020/21.**

**Cymeradwywyd Ffurflen Flynyddol Swyddogol y Cydbwyllgor ar gyfer 2020/21 (amodol ar Archwiliad Allanol), yn unol â'r amserlen statudol, sef 31 Mai 2021. Roedd y Ffurflen Flynyddol wedi'i gwblhau a'i ardystio'n briodol gan y Swyddog Cyllid Cyfrifol, sef Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd fel Swyddog Statudol y Cydbwyllgor. Awdurdodwyd y Cadeirydd i lofnodi'r Ffurflen Flynyddol er mwyn cadarnhau fod y Cydbwyllgor wedi cymeradwyo'r datganiadau ariannol arno.**

**Cymeradwywyd y trosglwyddiad o'r tanwariant o £241,023 i'r gronfa wrth gefn.**

**Clustnodwyd £4,953 o'r llog a dderbyniwyd ar y grant o £16m yn erbyn costau benthyca yn y dyfodol.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae angen i'r Cydbwyllgor fod yn ymwybodol o'i sefyllfa ariannol ar gyfer 2020-21 a chydymffurfio â'r gofynion statudol yn nhermau cwblhau Ffurflen Flynyddol Swyddogol Archwilydd Cyffredinol Cymru, sef yr arferiad priodol ar gyfer adroddiad cyfrifon cydbwyllgorau ag incwm a gwariant sy'n llai na £2.5 miliwn

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi mai eleni fydd y flwyddyn olaf y bydd y Bwrdd Uchelgais yn cymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol Swyddogol gan y bydd yr incwm a gwariant yn codi dros y trothwy o £2.5m, ac felly bydd angen i ddatganiadau mwy manwl. Nodwyd fod grant wedi ei dderbyn cyn diwedd y flwyddyn ariannol ar gyfer 2021/22 ac felly wedi ei nodi fel credydwyr yn adroddiad. Mynegwyd fod yr adroddiad yn debyg iawn i'r adroddiad monitro a dderbyniwyd yn gynharach yn y flwyddyn.

Nodwyd fod tanwariant o £641mil i'w gweld yn y Swyddfa Rheoli Rhaglen sydd yn gynnydd bychan ers yr adolygiad trydydd chwarter gan esbonio ei fod o ganlyniad i ad-daliad a dderbyniwyd gan Gyngor Conwy ar gyfraniad y Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol a lleihad yng ngwariant ar y pennawd Cynllunio, Datblygu a Chefnogi Prosiectau. Nodwyd fod tan wariant o £29mil dan y pennawd Gwasanaethau Cefnogol o ganlyniad i ostyngiad yn y gwariant ar wasanaethau cefnogol y Corff Atebol.

Mynegwyd fod yr incwm ar gyfer 2020/21 yn cynnwys cyfraniadau partneriaid, Grantiau ESF a grantiau bychan eraill. Yn ychwanegol, esboniwyd fod ad-daliad Tîm Ymgysylltu ar gyfer 2019-20 wedi ei dderbyn a llog ar falansau a oedd yn cynnwys bron i £5mil o log ar y grant cyfalaf o £16m a dderbyniwyd ganol Mawrth. Eglurwyd fod y grant cyfalaf hwn yn cael ei ddangos fel credydwr ar y Datganiad o Falansau ar y Ffurflen Flynyddol ac y bydd ar gael i ariannu'r rhaglen gyfalaf yn 2021/22 unwaith mae'r achosion busnes terfynol wedi eu cymeradwyol

Nodwyd fod hyn yn gadael sefyllfa ariannol derfynol ar gyfer 2020/21 yn danwariant o £241mil. Esboniwyd fod yr arian wedi ei drosglwyddo i'r gronfa werth gefn i roi balans o £738mil. Ategwyd fod £415mil o'r gronfa eisoes wedi ei glustnod fel rhan o gyllideb 2021/22 fel y cymeradwywyd gan y Bwrdd Uchelgais yn ôl ym mis Mawrth. Eglurwyd y bydd hyn yn gadael balans o £323 o filoedd yn y gronfa wrth gefn.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn:-

- Holwyd os yw'r sefyllfa fel yr oedd y swyddogion yn disgwyl iddo fod. Mynegwyd fod y sefyllfa rhywfaint yn well, gan nodi fod tanwariant o ganlyniad i fethu penodi.
- Gofynnwyd a oedd targed ar gyfer y gronfa wrth gefn, nodwyd nad oedd ffigwr penodol ond bydd angen wrth edrych ar gynllun tymor canolig er mwyn delio gydag unrhyw risgiau allai godi.

. **6. CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU - ADRODDIAD CHWARTER 4 AC ADRODDIAD BLYNYDDOL**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Alwen Williams (Cyfarwyddwr Portffolio) a Hedd Vaughan-Evans (Rheolwr Gweithrediadau).

**PENDERFYNWYD**

**Nodwyd yr Adroddiad Perfformiad Chwarter 4, Cofrestr Risg y Portffolio wedi'i ddiweddaru ac Adroddiad Blynyddol y Swyddfa Rheoli Portffolio ar gyfer 2020/21.**

**Cytunwyd ar ffurf yr adroddiad chwarterol gan amlygu gwelliannau ar gyfer fersiynau'r dyfodol.**

**Cymeradwywyd cyflwyno Adroddiad Perfformiad Chwarter 4 ac Adroddiad Blynyddol y Swyddfa Rheoli Proffilio ar gyfer 2020-21 i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghyd a phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Ym mis Rhagfyr 2020 bu i'r Bwrdd Uchelgais a Llywodraethau Cymru a'r DU gytuno ar Gytundeb Terfynol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru. Mae adrodd rheolaidd ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adroddiad yn rhoi trosolwg o'r cynnydd yn y rhaglenni a phrosiectau ar gyfer Chwarter 4 yn dilyn arwyddo'r Cytundeb Terfynol yn ôl ym mis Rhagfyr 2020. Esboniwyd fod y ffocws wedi bod i symud i'r cyfnod gweithredu drwy adolygiad Gwaelodlin ym mis Ionawr i adolygu'r holl brosiectau i ail gadarnhau amserlenni ar gyfer datblygu a chyflawni achosion busnes. Ychwanegwyd fod nifer sylweddol o weithdai prosiect wedi eu cynnal er mwyn datblygu achosion busnes yn unol â chanllawiau'r Better Business Cases. Nodwyd yn ystod y cyfnod fod y Llythyr Dyrannu Grant wedi ei arwyddo a bod y dogfennau perthnasol wedi eu cyflwyno. O ganlyniad i hyn, mynegwyd fod y rhandaliad cyntaf o £16m wedi ei dderbyn ym mis Mawrth 2021.

Esboniwyd fod dau brosiect, Prosiect Morlais a Phrosiect Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter, wedi cwblhau eu Hadolygiadau Porth a bellach yn gweithio i fynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed cyn cyflwyno achosion busnes. Amlygwyd fod dau brosiect ar hyn o bryd yn adrodd yn 'goch' – Safle strategol Allweddol Bodelwyddan o ganlyniad i ganiatâd cynllunio amlinellol yn dod i ben, a Phorth Caergybi o ganlyniad gostau cynyddol a'r angen i adolygu'r prosiect.

Tynnwyd sylw at y gorfrestr risg gan bwylsesio fod y proffil risg ar y cyfan yn sefydlog a nad oedd unrhyw feysydd arwyddocaol newydd o bryder. Amlygwyd fod risigiau arwyddocaol yn parhau gyda ambell i brosiect unigol ac mae archwaeth ac gallu'r sector breifat i fuddsoddi yn parhau yn aneglur o ganlyniad i Covid-19. Nodwyd y prif addasiadau i'r gofrestr risg a oedd yn cynnwys:

- Graddfa risg gros a risg gweddilliol Capasiti wedi gostwng yn dilyn cwblhau yr ymgyrch recriwtio diweddaraf ar gyfer y Swyddfa Rheoli'r Portffolio.
- Graddfa risg gros a risg gweddilliol Buddsoddiad Sector Gyhoeddus wedi gostwng yn dilyn arwyddo'r Cytundeb Terfynol a Cytundeb Llywodraethu 2.

Cyflwynwyd yr adroddiad blynyddol a oedd yn edrych yn ôl ar gynnydd yn ystod y flwyddyn ariannol 2020/21 a oedd yn amlygu'r Cynllun Twf a gweithgareddau eraill gefnogir gan y Swyddfa Rhaglen.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn:-

- Nodwyd fod yr adroddiad yn arddangos yr holl waith sydd wedi ei wneud dros y flwyddyn a diolchwyd i'r tîm am ei greu.
- Pwysleisiwyd yr angen i bwysleisio'r ymdeimlad o bartneriaeth gref sydd i'w gweld yn y Cydbwyllgor. Ymhelaethwyd yr angen i amlygu'r cydweithio rhwng gwleidyddion a swyddogion i sicrhau fod y cynllun yn cael ei gyflawni.

**7. CAU ALLAN Y WASG AR CYHOEDD**

Cytunwyd i gau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 - Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol(yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).

Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol a masnachol fod angen trafod gwybodaeth o'r fath i heb ei gyhoeddi. Mae'r adroddiad yn benodol ynglyn a materion ariannol a busnes ynghyd a thrafodaethau cysylltiedig. Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn gallu bod yn niweidiol i fuddiannau'r cyrff a'r Cynghorau ac yn tanseilio hyder rhai eraill sydd yn ymwneud a'r Gytundeb Twf i rannu gwybodaeth sensitif ar gyfer ystyriaeth. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau yr allbwn cyfansawdd gorau.

**8. ACHOS BUSNES AMLINELLOL PROSIECT MORLAIS**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Henry Aron (Rheolwr Rhaglen Ynni) ac Hedd Vaughan-Evans (Rheolwr Gweithrediadau).

**PENDERFYNWYD**

Cymeradwywyd yr Achos Busnes Amlinellol ar gyfer prosiect Morlais ac, yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraethau Cymru a'r DU o'r broses sicrwydd yr ymgymerwyd â hi a bod Menter Môn yn rhoi sylw i'r materion wedi'u nodi yn Adran 7 yr adroddiad, bod cais yn cael ei wneud i baratoi Achos Busnes Llawn i'r Bwrdd ei ystyried yn dilyn cwblhau'r broses caffael a'r broses caniatâd.

Nodwyd fod y trefniadau ariannol terfynol ar gyfer y prosiect a fydd yn ffurfio sail y Llythyr Cynnig Grant yn cael eu cytuno ar y cam Achos Busnes Llawn ac awdurdodwyd Cyfarwyddwr Portffolio, mewn ymgynghoriad â Swyddog Adran 151 a Swyddog Monitro'r Bwrdd i gytuno ar y telerau drafft i'w cymeradwyo gan y Bwrdd.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Yn unol â chytundeb terfynol y Cynllun Twf, caiff achosion busnes eu datblygu ar gyfer pob prosiect o fewn y Cynllun Twf, yn unol â'r canllawiau 'Better Business Case' a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru a Thrysorlys EM. Mae angen cymeradwyaeth y Bwrdd i bob achos busnes fel bod modd i'r prosiect symud yn ei blaen i'r wedd nesaf.

**TRAFODAETH**

Trafodwyd yr adroddiad.

Dechreuodd y cyfarfod am 2.30yp a daeth i ben am 4.50yp.

**Blaen Raglen Waith y Bwrdd Uchelgais**

**(Gorffennaf 2021 – Gorffennaf 2022)**

| Dyddiad cyfarfod y Bwrdd Uchelgais | Teitl yr eitem | Cyn cyflwyno i'r Bwrdd Uchelgais | | | Swyddog Cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Bwrdd Rhaglen | Bwrdd Cyflawni Busnes | Grŵp Gweithredol | |
| Gorffennaf 30 2021 | Adroddiad Chwarter 1 2021-22 | | | ✓ | Hedd Vaughan-Evans |
| | Achos Busnes Amlinellol Canolfan Prosesu Signal Digidol | Digidol | ✓ | ✓ | Stuart Whitfield |
| | Achos Busnes Amlinellol Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon | Bwyd Amaeth a Thwristiaeth | ✓ | ✓ | Robyn Lovelock |
| Medi 17 2021 | Achosion Busnes Portffolio a Rhaglenni | ✓ | ✓ | ✓ | Alwen Williams / Hedd Vaughan-Evans |
| | Achos Busnes Amlinellol Canolfan Opteg a Peirianneg Menter | Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Uwch | ✓ | ✓ | Robyn Lovelock |
| Hydref 22 2021 | Adroddiad Chwarter 2 2021-22 | | | ✓ | Hedd Vaughan-Evans |
| | Adolygiad Ariannol Chwarter 2 2021-22 | | | ✓ | Dafydd L Edwards |
| | Achos Busnes Llawn Morlais | Ynni Carbon Isel | ✓ | ✓ | Henry Aron |
| | Achos Busnes Llawn Canolfan Prosesu Signal Digidol (i'w gadarnhau) | Digidol | ✓ | ✓ | Stuart Whitfield |
| Rhagfyr 10 2021 | 2 Achos Busnes Prosiect (manylion prosiect i'w gadarnhau) | ✓ | ✓ | ✓ | i'w gadarnhau |
| Ionawr 28 2022 | Adroddiad Chwarter 3 2021-22 | | | ✓ | Hedd Vaughan-Evans |
| | Adolygiad Ariannol Chwarter 3 2021-22 | | | ✓ | Dafydd L Edwards |
| Mawrth 25 2022 | Cyllideb 2022-23 | | | ✓ | Dafydd L Edwards |
| Mai 20 2022 | Adroddiad Chwarter 4 2021-22 | | | ✓ | Hedd Vaughan-Evans |
| | Adroddiad Blynyddol 2021-22 | | | ✓ | Hedd Vaughan-Evans |
| | Adroddiad Alldro 2021-22 | | | ✓ | Dafydd L Edwards |
| Gorffennaf 15 2022 | Adroddiad Chwarter 1 2022-23 | | | ✓ | Hedd Vaughan-Evans |